

## CHAMBERS, WILLIAM (1809 - 1882), ustus

**Enw:** William Chambers  
**Dyddiad geni:** 1809  
**Dyddiad marw:** 1882  
**Priod:** Joanna Chambers (née Trant)  
**Plentyn:** John Graham Chambers  
**Rhiant:** William Chambers  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ustus  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith  
**Awduron:** Nansi Ceridwen Jones, David Williams

Unig fab **William Chambers**, Llanelly House, Sir Gaerfyrddin, brodor o Bicknor, Caint, ac uchel siryf sir Gaerfyrddin yn 1828. Priododd, 1835, Joanna Trant, merch Capten Payne o'r llynges. Fel ynad gweithiodd yn galed i ddarostwng gwrthryfel Beca yn 1843 ac i symud y drygau a oedd yn gyfrifol amdano. Cynorthwyodd i ddatblygu diwydiannau ac adnoddau crai tref a phorthladd Llanelli. Yn 1840 sefydlodd y ' South Wales Pottery, ' a dug y gwaith ymlaen hyd 1855 pryd y'i trosglwyddwyd i'r Meistri Coombs a Holland. Yr oedd ei dad wedi etifeddu Llanelly House am ei oes drwy ewyllys **Syr John Stepney**, a phan fu farw ef ar y 9fed o Chwefror 1855, aeth yr ystad yn ôl i deulu **Stepney**. Ar farw'r 9fed barwnig, **Syr Thomas Stepney** yn 1825, y cafodd Chambers 'Llanelly House' - ni wyddys pa fodd. Yn 1853 prynodd stad yr Hafod, Sir Aberteifi, a bu'n byw yno hyd 1871, pryd y gwerthodd Hafod a dychwelyd i Gaint. Yr oedd yn ustus heddwch yn siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi ac yn ddirprwy-raglaw sir Aberteifi. Bu farw ddechrau 1882.

### Awduron

**Nansi Ceridwen Jones**

**Yr Athro Emeritus David Williams**, (1900 - 1978)

### Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1882, 43

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.1, 191

*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, 1943-4, 21-63

John Innes, *Old Llanelly* (Cardiff 1902), 63

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **William Chambers**

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20734580**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, N. C., & Williams, D., (1953). CHAMBERS, WILLIAM (1809 - 1882), ustus. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CHAM-WIL-1809>

Copïo'r clipwrdd

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government